**<u>Cynllun Cyhoeddi Ysgol Gymraeg Bryniago ar wybodaeth sydd ar gael o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000</u>**

Mae'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am gynnal a chadw'r cynllun

## 1. Cyflwyniad

Un o fwriadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (DRhG) yw bod awdurdodau cyhoeddus, yn cynnwys ysgolion a gynhelir, yn gweithio o blaid cyhoeddi gwybodaeth eglur i'r cyhoedd.

Er mwyn gwneud hyn rhaid i ni gynhyrchu cynllun cyhoeddi sy'n gosod allan:

- Y dosbarthiadau o wybodaeth yr ydym ni'n ei gyhoeddi ac yn bwriadu ei gyhoeddi;
- Y ffordd y caiff y wybodaeth ei gyhoeddi;
- A fydd yn wybodaeth ar gael am ddim neu a fydd angen talu amdano?

Mae'r cynllun yn ymwneud â gwybodaeth sydd eisoes wedi ei gyhoeddi a gwybodaeth a gyhoeddir yn y dyfodol. Bydd yr holl wybodaeth sy'n rhan o'r cynllun naill ar gael ar wefan yr ysgol neu fel copi papur.

Rydyn ni'n cadw peth gwybodaeth nad yw'n agored i'r cyhoedd, er enghraifft manylion gwybodaeth bersonol. Mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn cydffurfio â'r cynllun model a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

## 2. Nod yr ysgol

Fel ysgol rydyn ni'n dymuno creu awyrgylch lle gall ein disgyblion ddatblygu'n addysgiadol, yn ddiwylliannol, yn gymdeithasol, yn ysbrydol ac yn gorfforol hyd eu heithaf. I'r diben hwn ceisiwn ysbrydoli'r plant trwy seilio eu haddysg ar iaith, crefydd, diwylliant a threftadaeth Cymru, a chreu ymwybyddiaeth gref o Gymreictod ac ennyn balchder yn ein hiaith yng nghalon pob plentyn.

**Amcanion yr ysgol**
(i) Creu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o:
- iaith
- grefydd
- gymdogaeth
- ddiwylliant
- amgylchedd

(ii) Sicrhau gofal a datblygiad pob plentyn yn:
- feddyliol
- gymdeithasol
- emosiynol

- foesol
- gorfforol

(iii) Meithrin cysylltiad agos rhwng yr ysgol a'r:
- cartref
- gymuned
- gwasanaethau cynnal (Y Swyddfa Addysg, Y Llywodraethwyr, Ymgynghorwyr)

(iv) Cydweithio effeithio rhwng y:
- pennaeth a'r staff
- staff a rhieni
- Llywodraethwyr a'r staff

**Ceisiwn:**
- sicrhau bod pob plentyn yn rhifog ac yn llythrennog yn y Gymraeg a'r Saesneg
- hyrwyddo a datblygu dwyieithrwydd
- sicrhau awyrgylch ddiogel, hapus a gofalgar i'r plant
- rhoi cyfle i bob disgybl ddatblygu i'w lawn botensial yn feddyliol, yn gorfforol, yn foesol, yn ysbrydol ac yn esthetig
- gynnig cyfle cyfartal i bawb waeth beth fo hil, oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, iaith, anabledd, tarddiad ethnig, cenedligrwydd, crefyddol neu anghredinwyr, cefndir teuluol neu unrhyw nodwedd unigol sydd yn amharu ar gyfleoedd bywyd person
- annog pawb i ddangos parch at eiddo a phobl eraill
- addysgu pob plentyn i feddwl drosto'i hun, i weithio'n annibynnol a chydag eraill, a meithrin agweddau iach tuag at y gymuned a'r byd ehangach
- bwysleisio pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a bod yn drwsiadus bob amser
- ddatblygu meddyliau bywiog ac ymholiadol gan hybu'r gallu i resymu, i ddadansoddi ac i drafod yn rhesymegol.

## 3. Categorïau o wybodaeth a gyhoeddir

Mae'r cynllun cyhoeddi yn eich arwain chi i wybodaeth a gyhoeddir gennym eisoes (neu yn ddiweddar), neu a gyhoeddir gennym yn y dyfodol. Maent yn cael eu rhannu'n gategorïau gwahanol o wybodaeth, sef 'dosbarthiadau'. Gweler adran 6 o'r cynllun hwn. Mae'r dosbarthiadau o wybodaeth a fydd ar gael yn cael eu trefnu yn bedwar pwnc eang:
- Prosbectws yr Ysgol – gwybodaeth a gyhoeddir ym mhrosbectws yr ysgol.
- Dogfennau Llywodraethwyr – gwybodaeth a gyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr neu unrhyw ddogfennau eraill gan y corff llywodraethu.
- Disgyblion a Chwricwlwm - gwybodaeth ynglŷn â pholisïau sy'n ymwneud â disgyblion a chwricwlwm yr ysgol.
- Polisïau'r ysgol a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r ysgol.

## 4. Dosbarthiadau o wybodaeth a gyhoeddir ar hyn o bryd
***Prosbectws yr ysgol***

Mae'r adran hon yn gosod allan pa wybodaeth a gyhoeddir ym mhrosbectws yr ysgol

i) **Manylion ymarferol**

- Enw, cyfeiriad, rhif ffôn yr ysgol a'r math o ysgol.
- Enw'r Pennaeth a Chadeirydd y Llywodraethwyr.
- Dyddiadau gwyliau ysgol (gan gynnwys gwyliau hanner tymor) yn ystod y flwyddyn ysgol nesaf
- Amserau sesiynau'r ysgol
- Crynodeb o bolisïau ynglŷn â chodi a dileu taliadau y penderfynwyd arnynt gan Gorff Llywodraethol yr ysgol.

ii) **Cwricwlwm, trefniadaeth addysgol a dulliau addysgu'r ysgol**
* Datganiad cwricwlaidd, sy'n cynnwys crynodeb o'i gynnwys, esboniad o'r ffordd y caiff ei drefnu mewn perthynas â'r grwpiau oedran a'r cyfnodau allweddol gwahanol, a disgrifiad o'r dulliau addysgu a ddefnyddir.

iii) **Trefniadau cwricwlaidd arbennig a threfniadau eraill a wneir ar gyfer categorïau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.**
* Trefniadau cwricwlaidd arbennig a threfniadau eraill ar gyfer categorïau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) sydd â datganiadau ac sydd heb ddatganiadau
* Crynodeb o bolisi AAA yr ysgol.

iv) **Trefniadau o ran cwyno am y cwricwlwm**
* Sut y gall rhieni ac eraill gael gwybodaeth am y trefniadau o dan adran 409 Deddf Addysg 1996 ar gyfer delio â chwynion ffurfiol (i'r corff llywodraethol, yr AALl neu'r ddau) am y cwricwlwm neu unrhyw fater cysylltiedig. Dylai ysgolion a gynhelir gan AALl gadw copi o ddogfen yr AALl sy'n nodi'r trefniadau wrth law.

v) **Cynnwys a threfniadaeth polisi addysg rhyw**
* Gwybodaeth am ymagwedd gyffredinol yr ysgol tuag at addysg rhyw, gan gynnwys dethol deunyddiau addysgu sy'n briodol i anghenion ac oedrannau'r disgyblion.
* I ba raddau y mae addysg rhyw yn elfen ar wahân neu elfen annatod o'r cwricwlwm.
* Nodyn i atgoffa rhieni y gallant dynnu eu plant o'r holl gwrs addysg rhyw a ddarperir neu ran ohono.

vi) **Cyfle cyfartal**
* Manylion am unrhyw bolisïau a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethol mewn perthynas â chyfle cyfartal.
* Mae'n ddyletswydd ar y corff llywodraethol a'r pennaeth hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da *(Adran 4 Rheoliadau Llywodraethol Ysgolion (Cylch Gorchwyl) 2000).*

vii) **Disgyblion ag anableddau**
* Disgrifiad o'r trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion ag anableddau (gan

gynnwys y trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig heb ddatganiadau).
* Manylion am y camau a gymerir i atal disgyblion ag anableddau rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill.
* Manylion am y cyfleusterau a ddarperir i hwyluso mynediad i ddisgyblion ag anableddau i'r ysgol (er enghraifft, mynediad yn gorfforol neu fynediad i'r cwricwlwm).

viii) **Data presenoldeb**
* Ar gyfer y flwyddyn ysgol flaenorol a'r grwpiau blwyddyn lle y bo pob un o'r disgyblion, neu'r mwyafrif ohonynt, o oedran ysgol gorfodol

ix) **Canlyniadau'r Ysgol a Chanlyniadau Cenedlaethol (Cymru gyfan)**
* Nifer y disgyblion ym mlwyddyn olaf Cyfnod Allweddol 2.
*Canran y disgyblion fel y nodwyd gan yr Asesiad Athrawon a Phrofion/Tasgau'r CC:
a) a oedd wedi cyrraedd pob lefel (yn cynnwys gweithio tuag at lefel 1) ym mhynciau Saesneg, Cymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth;
b) a oedd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (fel iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyfun;
c) a eithriwyd o'r asesiad o dan Adrannau 364 neu 365 Deddf Addysg 1996;
ch) a fethodd â chofrestru lefel oherwydd iddynt golli'r asesiad oherwydd absenoldeb;
d) a fethodd â chofrestru lefel ar ôl cael eu hasesu;
dd) na chawsant eu cyflwyno ar gyfer y profion am eu bod yn gweithio y tu allan i lefel y profion.

***Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r Corff Llywodraethu***

Mae'r adran hon yn gosod allan y wybodaeth a gyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a dogfennau eraill sy'n ymwneud â'r Corff Llywodraethu.

- Nodi'r amser, y dyddiad, y lleoliad, y pwrpas a'r agenda ar gyfer y cyfarfod rhieni blynyddol
- Enwau a chyfeiriadau'r clerc a'r cadeirydd
- Enwau'r aelodau o'r Corff Llywodraethol, eu cyfnod yn y swydd, a'u statws, e.e rhiant, athro, llywodraethwr sylfaen, cyfetholedig, a benodwyd mewn ffordd arall, yn rhinwedd eu swydd
- Gwybodaeth am berfformiad a thargedau
- Manylion ariannol
- Disgyblion ag anableddau - Cynllun Hygyrchedd
- Y camau Gweithredu a gymerwyd gan y corff Llywodraethol o ganlyniad i unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod diwethaf
- Crynodeb o unrhyw newidiadau i brosbectws yr ysgol ers iddo gael ei gyhoeddi
- Cynnydd ar gynllun gweithredu'r ysgol (yn dilyn arolygiad)
- Dyddiadau'r tymor ac amserau'r sesiynau
- Manylion am bresenoldeb disgyblion
- Y camau a gymerwyd i ddatblygu neu atgyfnerthu cysylltiadau â'r gymuned
- Y camau a gymerwyd i adolygu polisïau'r ysgol
- Y camau a gymerwyd i weithredu ac adolygu strategaethau'r ysgol

- Manylion am bolisi Anghenion Addysgol Ychwanegol (AAY) yr ysgol
- Canlyniadau asesiadau statudol Cwricwlwm Cenedlaethol(CC) agregedig yr ysgol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2
- Y wybodaeth gymharol genedlaethol (Cymru-gyfan) ddiweddaraf sydd ar gael

***Offeryn Llywodraethu***

- Enw'r ysgol
- Categori'r ysgol
- Enw'r corff llywodraethu
- Niferoedd a chynnwys aelodaeth y corff llywodraethu
- Tymor gwasanaethu pob categori o lywodraethwr os yw'n llai na 4 mlynedd
- Enw'r corff sydd â hawl i apwyntio unrhyw gategori o lywodraethwr
- Manylion unrhyw ymddiriedolaethau
- Os yw'r ysgol o natur grefyddol dylid cynnwys disgrifiad o ethos yr ysgol
- Dyddiad cychwyn yr offeryn llywodraethu

***Cofnodion o gyfarfodydd a phwyllgorau'r corff llywodraethu***

(Efallai y bydd peth gwybodaeth a bennir yn gyfrinachol neu sydd wedi ei eithrio'r gyfreithiol rhag cael ei gyhoeddi – felly ni allwn gyhoeddi'r fath wybodaeth.)
Cofnodion a gytunwyd arnynt o gyfarfodydd a phwyllgorau'r corff llywodraethu y cytunwyd arnynt (y flwyddyn academaidd bresennol a'r flwyddyn academaidd lawn ddiwethaf)

***Polisïau Disgyblion a Chwricwlwm***

Mae'r adran hon yn rhoi mynediad i wybodaeth ynglŷn â pholisïau sy'n ymwneud â disgyblion a chwricwlwm yr ysgol.

- Amddiffyn Plant
- Cydraddoldeb
- Anghenion Ychwanegol
- Abl a thalentog
- Ymddygiad
- Mynediad i'r Rhyngrwyd
- Cwricwlwm
- Sgiliau
- Dysgu ac Addysgu
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol
- Addoliad Cyhoeddus
- Gwrthfwlio
- Gwaith Cartref
- Llyfrgell
- Addysg Cyffuriau a chamddefnyddio sylweddau
- Addysg Ryw
- Cynllun Hygyrchedd
- Polisïau pynciau'r Cwricwlwm
- Polisi Datblygiad Cynaliadwy
- Cyfnod Sylfaen

***Polisiau'r Ysgol a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r ysgol***

Mae’r adran hon yn rhoi mynediad i wybodaeth ynglŷn â pholisïau sy’n ymwneud â’r ysgol yn gyffredinol.

- Iechyd, Diogelwch a Lles
- Datganiad Dyletswydd Cydraddoldeb Hiliol
- Polisi a threfn Diswyddo ac Adleoli
- Polisi Asesu, Cofnodi ac Adrodd yn ôl
- Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA)
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Rheoli Perfformiad
- Cynorthwywyr Dysgu Dosbarth
- Cyfathrebu
- Gwisg Ysgol
- Monitro a gwerthuso
- Gosod targedau
- Cysylltiadau â Diwydiant a Busnes
- Llyfrgell
- Codi Tâl
- Ymweliadau a Gweithgareddau
- Cynllun Hygyrchedd
- Trefn Cwyno
- Cynllun Gwyliau Blynyddol
- Polisi a Threfniadau Delio ag Aflonyddu
- Disgyblu staff, ymddygiad, galluogrwydd a Pholisi Achwyniad
- Polisi a Threfn Seibiant Gyrfa
- Patrymau Gweithio Hyblyg
- Rhannu Swydd
- Cyflog Ysgol
- Cyfnodau Mamolaeth a Thadolaeth
- Absenoldeb Mabwysiadu
- Adroddiadau a gyhoeddwyd gan Estyn sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at yr ysgol
- Cynllun Gweithredu ar ôl arolwg Estyn
- Dyddiadau tymhorau ac amserau'r ysgol

***Offerynnau statudol a Chylchlythyron Cwricwlwm***

Unrhyw offerynnau statudol, cylchlythyron adrannol a nodiadau gweinyddol a ddanfonwyd gan yr Awdurdod Addysg Lleol, Llywodraeth y Cynulliad, Estyn (Arolygwyr ysgol), a anfonwyd at y Pennaeth neu'r Corff Llywodraethu, ac sy'n ymwneud â'r cwricwlwm.

***Atodiad A – Dogfennau eraill***

Mae atodiad A yn cynnwys rhestr o ddogfennau eraill a gedwir gan yr ysgol ac sydd ar gael os gofynnir amdanynt.

## 5. Sut mae gwneud cais am wybodaeth?

Os hoffech chi dderbyn fersiwn ar bapur o unrhyw un o'r dogfennau sy'n rhan o'r cynllun, gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol ar ffôn, e-bost, ffacs neu lythyr. Mae'r manylion ar gael isod, neu gallwch ymweld â gwefan yr ysgol, sef:

http://www.yggbryniago.co.uk/croeso/

Ebost*:* *ygg.bryniago@swansea-edunet.gov.uk*

Ffôn: 01792 882012

Cyfeiriad: YGG Bryniago, |Stryd Iago Isaf, Pontarddulais, Abertawe SA4 8JA

Er mwyn i ni allu prosesu eich cais yn gyflym, gofynnir i chi nodi'r canlynol yn eglur mewn priflythrennau ar unrhyw ohebiaeth, os gwelwch yn dda – 'CAIS CYNLLUN CYHOEDDI'.

Os nad yw'r wybodaeth y dymunwch ei gael yn rhan o'r cynllun, ac os nad yw'n ymddangos ar wefan yr ysgol, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol beth bynnag er mwyn gofyn amdano**.**

## 6. Gwybodaeth ynglŷn â thalu

Mae'r wybodaeth a gyhoeddir ar wefan yr ysgol yn rhad ac am ddim, er y gallech chi wynebu costau gan eich darparwr gwasanaethau Rhyngrwyd. Os nad oes gennych chi wasanaeth Rhyngrwyd, fe allwch chi fynd i wefan yr ysgol yn ei llyfrgell leol neu gaffi rhyngrwyd. Mae copïau unigol o'r wybodaeth sy'n rhan o'r ddogfen hon yn cael eu darparu yn rhad ac am ddim, oni bai eu bod wedi eu heithrio yn adran 6. Os yw eich cais yn golygu bod rhaid i ni wneud llawer o waith llungopïo neu brintio, neu oes yw cost postio yn ddrud, neu os cost i'r eitem (e.e. rhai cyhoeddiadau wedi eu printio neu fideo) byddwn yn rhoi gwybod i chi beth fydd y gost lawn cyn gweithredu eich cais. Pan fydd tâl fe nodir hyn gydag arwydd £ yn y bocs disgrifiad.

## 7. Adborth a Chwynion

Rydyn ni'n croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynglŷn â'r cynllun hwn. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cynllun cyhoeddi, neu os hoffech chi dderbyn cymorth pellach, neu os hoffech chi wneud cwyn, dylech gysylltu ag ysgrifenyddes yr ysgol yn y lle cyntaf. Os na fyddwch yn fodlon â'r cymorth a dderbyniwch neu os nad ydyn ni wedi llwyddo i ddatrys eich cwyn, ac os ydych chi'n teimlo bod angen gwneud cwyn swyddogol, yna dylech ei anfon at y Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae'r corff hwn yn gyfrifol am 8

sicrhau bod Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn cael ei gadw’n gywir, ac mae’n delio â chwynion ffurfiol. Eu cyfeiriad yw:

Information Commissioner
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Neu
Llinell ymgynghori: 01625 545 700 Ebost: publications@ic-foi.demon.co.uk. Gwefan : www.informationcommissioner.gov.uk